**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-KS-5187 - 19

Aeolodau Cynulliad

29 Hydref 2019

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Ysgrifennais atoch ar 15 Ebrill i'ch hysbysu am y gorsafoedd yng Nghymru y dyfarnwyd cyllid iddynt o dan Raglen Mynediad i Bawb genedlaethol Llywodraeth y DU, gydag ymrwymiad gan Drafnidiaeth Cymru i roi arian cyfatebol o £10 miliwn.

Rwy'n ysgrifennu atoch nawr i'ch hysbysu bod y Prif Weinidog a minnau bellach wedi cymeradwyo'r enwebiadau â blaenoriaeth ar gyfer cyllid o dan gam nesaf Rhaglen Mynediad i Bawb – yr haen ganol – a gafodd eu hargymell imi gan Grŵp Cyflawni Lleol y diwydiant rheilffyrdd ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae hyn yn cynrychioli rhaglen £8 miliwn o welliannau i hygyrchedd ledled Cymru a'r Gororau, lle rwy'n neilltuo cyfraniad £3.6 miliwn ychwanegol o arian cyfatebol gan Drafnidiaeth Cymru, fel sy'n ofynnol i gael y cyfraniad £3.6 miliwn o arian cyfatebol gan Raglen Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU – yr haen ganol. Mae cyfraniad arall posibl o £0.8 miliwn wedi cael ei nodi gan awdurdodau lleol a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd, ond mae hwn yn ddarostyngedig i'r partïon hynny'n cymeradwyo'r arian hwnnw.

Wrth baratoi'r enwebiadau, fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 15 Ebrill, roeddwn i wedi gofyn i Drafnidiaeth Cymru fynd i'r afael â'r problemau mynediad yn yr wyth gorsaf nad ydynt wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth y DU, gan fy mod yn teimlo'n gryf fod y rhain yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi mewn mynediad heb risiau. Dyma nhw:

Caerfyrddin
Cas-gwent
Castell-nedd
Cogan
Pont-y-clun
Pont-y-pŵl a New Inn
Rhiwabon
Y Drenewydd

Byddai'r enwebiadau â blaenoriaeth yn cynnwys ychwanegu lifftiau at y strwythurau presennol yn Rhiwabon, Castell-nedd, a Phont-y-pŵl a New Inn, lle mae'r ateb hwn wedi cael ei nodi fel opsiwn amgen ymarferol i bontydd newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Aseswyd y byddai angen pontydd troed gyda lifftiau ar gyfer y pum enwebiad â blaenoriaeth arall. Byddai hyn y tu hwnt i'r cwmpas a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer haen ganol y rhaglen, felly nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr enwebiadau â blaenoriaeth a gafodd eu hargymell, er eu statws blaenoriaeth parhaus o ran anghenion mynediad.

Mae'r enwebiadau â blaenoriaeth hefyd yn cynnwys gorsafoedd eraill lle byddai'n addas ychwanegu lifftiau at strwythurau presennol – yn Grangetown, Llanilltud Fawr a'r Eglwys Wen, Swydd Amwythig.

Mae enwebiadau hefyd yn cynnwys gwelliannau i orsaf Hwlffordd, sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Sir Penfro a'r diwydiant rheilffyrdd, ac sy'n cynnwys gwelliannau i fysiau a TrawsCymru a rhagor o leoedd parcio yn yr orsaf.

Mae'r gwelliannau yng Nghastell-nedd yn cael eu datblygu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r diwydiant rheilffyrdd, a byddai'n gweld pont droed yr awdurdod lleol ar bwys yr orsaf yn cael ei throsglwyddo i berchnogaeth y diwydiant rheilffyrdd, a'r bont yn cael ei huwchraddio ar y cyd i fodloni safonau'r diwydiant rheilffyrdd.

Mae'r ddau gynllun partneriaeth awdurdod lleol yn ddarostyngedig i ddatrys problemau ynghylch tir a chytundebau gweithredol.

Yn olaf, mae'r enwebiadau'n cynnwys rhaglen gwella hygyrchedd ranbarthol a fydd yn cynnwys gwella mynediad ar draws y rhanbarth, gan gynnwys, i ddechrau ac yn ddarostyngedig i asesiad ymarferoldeb arall (gan gynnwys nodi adeiladau addas sydd eisoes yn yr orsaf), y posibilrwydd o doiledau Changing Places mewn nifer o leoliadau o arwyddocâd strategol a/neu sy'n gyrchfannau twristiaeth allweddol. Bwriedir cynnwys hefyd yn y rhaglen hon nifer o orsafoedd ar draws y rhwydwaith lle bydd palmantau botymog yn cael eu gosod, a gwelliannau eraill i hygyrchedd sy'n weddol syml eu gwneud.

Mae pob prosiect yn ddarostyngedig i asesiad ymarferoldeb a pheirianyddol.

Rwy'n credu bod hon yn rhaglen bwysig a fydd yn gwella hygyrchedd yn sylweddol ledled Cymru a'r Gororau. Byddwn i'n annog Llywodraeth y DU i ymrwymo i'r cyllid y gofynnir amdano fel y gallai'r gwaith ddechrau. Rwyf hefyd yn galw arni i fuddsoddi mewn hygyrchedd gorsafoedd, maes lle mae gennym nifer annerbyniol o orsafoedd nad ydynt yn hygyrch o hyd, gan gynnwys yn benodol ein pum enwebiad â phwyslais o'r rownd derfynol nad ydynt wedi derbyn cyllid.

I gloi, rwy'n ymwybodol, yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 2 Hydref, ac mewn ateb i gwestiwn gan Nick Ramsay, dywedais y byddwn i'n rhoi diweddariad i Aelodau'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r 11 cynllun a gafodd eu cymeradwyo ym mis Ebrill ar gyfer cyllid gan y rhaglen Mynediad i Bawb. Rwyf wedi gofyn am adroddiad manwl gan yr asiantiaid cyflawni, Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru, a byddaf yn ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad pan fyddaf wedi derbyn hwn.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport